Meithrinfa Camau Tirion - caring for children from 3months – 11 years. We're with you every step of the way!

Meithrinfa Camau Tirion

01554 770 660

Camau Tirion Kids Club

before and after school care for 4-11 year olds

Visit us at: www.camautirion.co.uk

CYNNWYS

Adran 1: Gwybodaeth Cyffredinol

1.1 Nod ac amcanion

1.2 Lleoliad a cysylltiadau

1.3 Rheolath y feithrinfa a strwythur staff

1.4 Amseroedd agor

1.5 Casglu plant a plant heb cael ei gasglu

1.6 Rhestr aros

Adran 2: Gwybodaeth ar gyfer rhieni newydd

2.1 Setlo I mewn

2.2 dosbarthiad y plant a pherson allweddol

2.3 y cwricwlwm a'r gweithgareddau sy'n cael ei darparu

2.4 Diwrnod cyntaf plentyn

2.5 system cofrestru a chadw cofnodion

2.6 Salwch a damweiniau

2.7 prydau bwyd

2.8 Amser gorffwys

2.9 lle

2.10 Ein partneriaeth gyda rhieni

2.11 codi arian

3 Telerau ac Amodau

01554 770 660

Diolch am eich ymholiad ynglyn a gofal preifat a phroffesiynol ar gyfer eich plentyn

Darllenwch eich ‘pecyn Croeso’ ynghyd a pholisiau ein meithrinfa.

Os byddwch yn penderfynu eich bod am ddechrau eich plentyn gyda ni, llanwch y ffurflen cofrestri os gwelwch yn dda a chysylltwch gyda naill rheolwr i gwneud trefniadau i ymweld a’r meithrinfa.

Bydd eich ymweliad yn galluogi chi a’ch plentyn i gwrdd a’r staff i gyd, cyfarwyddo gyda’r meithrinfa ac i weld y gwahanol gweithgareddau yn rhedeg.

Bydd hwn hefyd yn amser ardderchog i leihau unrhyw ofnau, ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddoch.

Os I chi yn hapus gyda’r gwasanaeth yr ydym yn cynnig, byddwn ni mewn sefyllfa I gadarnhau eich cofestri a rhoi dyddiad I’ch plentyn ddechrau.

Diolch yn fawr unwaith eto,

Yn gywir

Miranda Williams

Adran 1: Gwybodaeth Gyffredinol

1.1 Nod ac Amcanion

Nod y feithrinfa yw darparu gofal plant safon uwch a gofal plant cyn ysgol mewn amgylchedd diogel, cynhyrfiol, lle bo blaenoriaeth i anghenion datblygu'r plant a hapusrwydd y plant a'i theuluoedd.

Credai'r feithrinfa fod yr ansawdd yma yn gallu cael ei gyflawni trwy weithio mewn partneriaeth efo'r rhieni, gofalwyr a'r AGGCC, gyda'r gofal plant ac addysg feithrinfa yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Pob plentyn yn unigol ac yn unigryw
- Gan bob plentyn sgiliau a'r gallu sydd angen adeiladu arno
- Man cychwyn addysg plant yw ffocysu ar allu'r plant nid ei gwendidau
- Mae gan blant yr hawl i ddatblygu'n gorfforol, emosiynol, cymdeithasol, yn foesol and yn ddeallusol i'w potensial llawn.
- Mae pob plentyn yn dysgu trwy brofiadau gan ddefnyddio'u pump synhwyrau.
- Mae dysgu yn holistig i blant ifanc.

Mae'r feithrinfa yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r gymuned amrywiol y mae'n darparu ar ei gyfer, ac os oes unrhyw ymholiadau, gwestiynau, neu awgrymiadau gan y rhieni am weithrediad y feithrinfa meant yn cael eu hannog i gyfarwyddo rheolwr y feithrinfa.

Mae croeso cynnes i'r rhieni treulio amser yn y feithrinfa er mwyn trafod datblygiad ei blentyn efo aelodau staff neu unrhyw pryderai sydd ganddynt.

Yr ydym yn gobeithio fe fydd yr amser mae rhieni a phlant yn gwario yn y feithrinfa yn brofiad hapus a gadarnhaol i bawb.

Buddiannau i'r rhieni

Yr ydym yn deall bod gadael eich plentyn am y tro cyntaf yn gallu body n broses ingol a thrist i'r rhiant a hefyd i'r plentyn, felly yr ydym yn ceisio gwneud hyn mor rhwydd ag sy'n bosib.

Unwaith bod lle yn cael ei rhoi i'ch plentyn ond cyn iddo/iddi ddechrau, fyddwn yn eich gwahodd i'r feithrinfa i fynychu sesiwn setlo i mewn. Mae'r profiad yma yn amhrisiadwy ac fe fydd yn galluogi ni i ddechrau adeiladu perthynas holl bwysig efo chi ac eich plentyn. Mae croeso i chi aros yn y feithrinfa nes eich bod yn sicr bod eich plentyn wedi addasu i'r amgylchedd ac yn hapus.

Yr ydym yn sicrhau bod pob cyfle gennych i drafod efo person allweddol eich plentyn ac aelodau eraill o staff. Mae cyfathrebu da rhwng staff a rhieni yn hanfodol, gan fydd hyn yn galluogi ni i wneud adroddiadau llawn ar ddatblygiad eich plentyn ac ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych.

Cynhyrchir cylchlythyron i'r rhieni yn rhoi gwybodaeth ' gweithgareddau'r feithrinfa a digwyddiadau, newidiadau i bolisïau, gwybodaeth gyffredinol, gwybodaeth ddiweddaraf o aelodau staff ac unrhyw wybodaeth ychwanegol y dylai chi fel rhieni bod ymwybodol ohono. Fe fydd y wybodaeth yma hefyd ar gael ar yr hysbysfwrdd yn y cyntedd.

Beth sy'n wahanol am y feithrinfa hon?

- ✓ Rydym yn cynnig gofal llawn amser a rhan amser dwyieithog sydd yn hybu'r dull trochi o ddysgu dwy iaith yn gydamserol. Mae'r holl adnoddau sydd yn cael ei gadw yn ddwyieithog. Os yw rhieni eisiau prynu adnoddau Cymraeg yr ydym yn argymell: www.mabonamabli.co.uk <http://www.mabonamabli.co.uk> neu www.cwtshgloyn.net <http://www.cwtshgloyn.net> gan meant yn darparu adnoddau braf iawn. Mae First Foundations / camau tirion yn aelodau o Fudiad Ysgolion Meithrin, yr ydym hefyd yn aelod o WLB 'Invest in Welsh' cynllun ac mae gennym ni polisi penodol ar yr iaith Gymraeg. Gofynnwch I aelod o staff os ddymunwch weld copi.
- ✓ Mae'r feithrinfa yn cynnig dewis o amser ysgol yn unig sydd yn gweithredu dros 42 wythnos y flwyddyn, mae hyn yn ddelfrydol i rieni sydd yn gweithio mewn ysgol neu sydd efo plant yn hyn.
- ✓ Mae lleoliad y feithrinfa yn agos i nifer o ysgolion cynradd lle bo perthynas ardderchog gennym ganddynt i helpi i wneud y cam nesaf i'r ysgol mor esmwyth ag sy'n bosib i'ch plentyn. Mae eich plentyn yn debygol o wneud cyfeillgarwch gwerthfawr a fydd o gysur iddi/iddo wrth ddechrau'r ysgol.
- ✓ Rydym yn agos i'r M4, gyfleus i gymudwyr.
- ✓ Mae'r feithrinfa yn cael ei berchen a'i rhedeg gan athrawes gymwysedig, gyda'r cymorth o staff cymwysedig efo profiad ac ymrwymiad.
- ✓ Rydym yn paratoi bwyd maethol yn ddyddiol
- ✓ Mae maes parcio mawr gennym sydd yn sicrhau diogelwch a chyfleustra.
- ✓ Mae gan y feithrinfa adran tu allan amcanus a diogel, hefyd mae gan y feithrinfa ystafell dosbarth tu allan ar gyfer craft, celf ac yn y blaen.
- ✓ Mae'r feithrinfa yn cynnig gofal plant yn rhad ac am ddim i blant dros 3 gan ei body n cael ei ariannu gan y llywodraeth - gofynnwch am ragor o wybodaeth.

1.2 Lleoliad a chysylltiadau

Mae'r feithrinfa yn gallu ymgymryd mwyafswm o 30 blant rhwng tri mis oed a pedair blwydd oed ac mae wedi ei lleoli yn; Heol Goffa, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 3EJ. Mae prin o le i fabanod o dan 1 mlwydd oed, felly rydym yn argymell bwcio yn gynnar. Mae'r feithrinfa wedi cael ei rhannu i ddosbarthiadau gwahanol sydd yn addas ar gyfer datblygiad y plant. Mae'r dosbarth gwaelod yn darparu ar gyfer plant o dan ddau, tra bod y dosbarth top yn darparu ar gyfer plant dros ddwy flwydd oed.

Mae'r feithrinfa wedi cael ei lleoli mewn lle delfrydol i'r rhai sydd yn byw yn yr ardal amgylchyn a hefyd i gymudwyr o'r M4. Mae hefyd gan y feithrinfa maes parcio a lle i godi a gadael plant. Yr ydym yn dymuno bod rhieni yn ystyriol o'r bobl sy'n byw gyferbyn y feithrinfa i beidio parcio tu allan i'w cartrefi. Mae yna system un ffordd i fynedfa ac allanfa'r feithrinfa, rydym yn gofyn i chi dilyn y system gan ei body no er mwyn eich diogelwch chi.

Caiff adeilad y feithrinfa ei ddewis o achos y lleoliad a'r maint; bwriad yr adeilad yw hybu amgylchedd sydd yn cosi ac yn ddeniadol ar gyfer plant ifanc, yn debyg i gartrefi eu hun. Mantais fawr yr adeilad hwn yw'r adran tu allan sydd yn amcanus ac yn ddiogel, yn cynnwys cornel i dyfu llysiau, ardal bwystfilod bach, ardal chwarae gorfforol, a dosbarth mawr efo tu sydd yn gyfleus ar ddiwrnodau gwlyb. Mae'n ffaith ein bod ni'n dysgu trwy brofiadau ymarferol, mae nature yn darparu ar gyfer y cyfleoedd dysgu yma ac yr ydym ni yn annog y profiadau yma trwy'r flwyddyn gyfan felly yr ydym yn gofyn i chi darparu par o esgidiau glaw a chot dwym ar gyfer eich plentyn.

Rhif ffôn y feithrinfa yw: 01554 770 660. Gallwch gysylltu efo'r feithrinfa trwy e-bost:

camautirion@btinternet.com neu firstfoundations@btinternet.com

1.3 Rheolaeth y feithrinfa strwythur staff

Mae pob aelod o staff wedi cael ei dewis am ei chymeriad gofalgar, ei phrofiad, proffesiynoliaeth a chymwysterau priodol. Mae bob aelod o staff yn cael eu hannog i ddiweddaru eu hyfforddiant a sgiliau yn gyfredol. Mae'r feithrinfa yn ymrwymo i fod yn fuddsoddwyr mewn pobl.

Fe fydd rheolwr y feithrinfa yn cwrdd bob tymor efo pob aelod o staff i drafod materion megis ffioedd, staffio, cofrestri, polisïau a gweinyddiaeth.

Ratio staff

Mae ratio caeth gan y feithrinfa sydd yn gofyn bod 1 oedolyn i bob 3 o blant sydd o dan 2 mlwydd oed, 1 oedolyn I 4 o blant sydd rhwng 2 mlwydd oed a 3, ac 1 oedolyn i bob 8 o blant sydd dros 3 mlwydd oed. Er mwyn i ni gynnal y ratios yma mae gofyn i chi bwcio unrhyw sesiynau ychwanegol o flaen llaw, digon o rybudd o flaen llaw os yr ydych yn dymuno cymryd eich plentyn allan o'r feithrinfa am wyliau.

1.4 Amseroedd agor

Mae'r feithrinfa ar agor 51 wythnos y flwyddyn. Mae'n cau ar bob gŵyl banc ac un wythnos adeg y Nadolig. Amseroedd agor dyddiol: 8.00am - 6.00pm Dydd Llun I Ddydd Gwener. Rydym yn cynnig sesiynau amrywiol: bore: 8.30am - 1pm, diwrnodau ysgol: 9am - 3pm, prynhawn: 1pm - 5.30pm a llawn amser: 8.30am - 5.30pm. Gwelwch sesiynau rhad ac am ddim ar gyfer plant dros dair.

1.5 Casglu plant a phlant heb gael ei gasglu

Gofynnir i rieni casglu ei plant o'r feithrinfa am 5.30pm yr hwyraf, neu 6.00pm os yw wedi cael ei gytuno o flaen llaw. Os yw unrhyw un arall yn casglu eich plentyn mae rhaid cysylltu rheolwr neu'r rheolwr cynorthwyol trwy deleffon er mwyn rhoi'r neges. Mae rhaid bod y person sydd yn casglu eich plentyn yn adnabyddus i'r staff ac yn ffeil y plentyn fel person sydd â hawl i gasglu hi/fe. Rydym yn dymuno cael llun o bob person yr ydych yn rhoi hawl i gasglu eich plentyn ar adeg cofrestru, hefyd fyddwn yn dymuno gair cyfrinach ar gyfer diogelwch eich plentyn. Os nad yw eich plentyn yn bresennol yn y feithrinfa y dydd hynny, dylai galwad ffôn cael ei wneud rhoi'r neges cyn 8.30am.

1.6 Rhestr aros

Mae lleoedd yn y feithrinfa yn brin, yn enwedig lle babanod, felly yr ydym yn cynghori i chi bwcio'n gynnar. Os yr ydych yn dymuno cofrestri dylech gasglu ffurflen gais o reolwr y feithrinfa. Unwaith mae'r ffurflen gais wedi cael ei derbyn, fe fydd enwau yn cael ei rhoi ar y rhestr. Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o reolwr y feithrinfa.

Rheoli polisi mynediad

The Government's 'Full Day Care National Standards' requires:

"…The registered person has an effective system for managing access to the premises, ensures that it is used, and keeps a record of visitors."

Mae system y feithrinfa fel y gwelir isod:-

- Mae pob drws allanol lle bo mynediad i'r cyhoedd yn anghyraeddadwy o'r tu allan ac mae angen allwedd i'w hagor. Ni fyddai'r drysau byth yn cael ei aros ar agor neu ar y lats trwy gydol sesiwn yn feithrinfa. Yn ystod amser casglu fe fydd y drws allanol yn cael ei hagor ar gyfer cyfleustra'r rhieni, fodd bynnag ni fydd mynediad i'r feithrinfa gan fod cod ar yr ail ddrws i'w cadw dan glo nes bod aelod o staff yn adnabod y person sydd yn casglu'r plentyn.
- Mae cloch drws ar gael i hysbysu bod rhiant neu ymwelwr wrth y drws.
- Mae'r adran tu allan yn ddiogel gan fod wal uchel yn diogelu'r adeilad. Mae gan y giât bollten dwbl ac mae'n cyd-fynd a rheoliadau diogelwch tan.
- Mae prif ddyddiadur yn cael ei gadw yn y feithrinfa i gofnodi unrhyw ymweliadau sydd wedi cael ei trefni yn cofnodi enw llawn, pwrpas y cyfarfod, enw'r sefydliad, pwy oedd yn y cyfarfod, a dyddiad ac amser. Mae staff yn cael ei annog i gyfeirio at y dyddiadur os oes angen, ac er mwyn rhoi tic os wnaeth y cyfarfod digwydd.
- Mae cerdyn adnabod/bathodyn yn orfodol o bob ymwelwr diwydiant.
- Nid yw ymwelwyr BYTH yn cael ei adael ar ben ei hun gyda phlant/plentyn. (Pre-arrangedb maintenance visits will be advised by the manger and workers will never be left alone with children.)

Yn y scenario canlynol fe fydd y camau yma yn cael ei gweithredu:-

1. Mae rhiant yn dweud wrth aelod o staff bod ei plentyn yn cael ei casglu gan rywun nad yw'r feithrinfa yn adnabod.
    - Os yw'n bosib fyddwn yn ei gwahodd i ymweld â'r feithrinfa o flaen llawn er mwyn iddynt gael ei gyflwyno i'r staff.
    - Os nad yw hyn yn bosib fyddwn yn gofyn am ddisgrifiad corfforol llawn, (llun yn ddelfrydol) ei enw llawn a chyfeiriad, disgrifiad llawn o'i car a'r cyfrinair.

Polisi derbyn

Mae'r feithrinfa yn derbyn babanod o tair mis oed hyd at oed dechrau'r ysgol neu pedair mlwydd oed.

1. Mae bob lle yn y feithrinfa yn cael ei rhoi I'r plentyn cofrestredig cyntaf(first come first serve) mewn cytunbdeb gyda'r polisi cyfleuoedd cyfartal.
2. Man fo rhestr aros ar gyfer y feithrinfa fe fydd pob ffurflen gais yn cael ei ddiweddaru pan fyddwn yn ei derbyn. Pan fo lle ar gael ar gyfer eich plentyn fyddwn yn gofyn am deposit o fis ymlaen llaw. Ni fydd ad-daliad yn cael ei wneud os bod y rhieni yn terfynu lle y plentyn.
3. Mae blaenoriaeth yn cael ei rhoi I rhieni sydd efo plentyn yn y feithrinfa yn barod gan bod 10% o ddisgownt yn cael ei rhoi I'r plentyn hynaf.
4. Fe fydd niferoedd y plant yn cael ei rheoli'n gyson I sicrhau nad yw'r mwyafswm yn uwch na'r niferoedd o blant mae'r meithrinfa yn gallu darparu ar gyfer.
5. Cyn I'r plentyn dechrau yn y feithrinfa mae'n hanfodol I rhieni/gofalwyr cwbwlhau'r ffurflen gais a thalu siec of £35 I 'First Foundations Nursery'. Fydd y £35 yma yn cael ei didynu allan o'r ffi am y mis cyntaf.
6. Fe fydd ffioedd plant yn cael ei talu mis ymlaen llaw; ar ol hynny fyddwch yn derbyn anfoneb misol. Gall rhieni talu trwy siec, pres parod neu archeb sefydlog.

Fframwaith y Feithrinfa

Mae'r feithrinfa yn darparu gofal o safon uwch l'r plant mewn amgylchedd sydd yn gallu siarad dros ei hun. Cafodd y feithrinfa ei cynllunio a paratoi gan athrawes a rhiant, felly fe fydd yn setlo meddyliau bob rhiant gan bydd ei plentyn yn cael ei gofalu mewn amgylchedd hapus, diogel, holistig a cyfforddus. Fe fydd hefyd yn cynhyrfiol pan yn anghenreidiol gyda llawer o gweithgareddau wedi cael ei drefnu yn ddyddiol.

Adrannau ein meithrinfa…

Mae'r plant yn cael ei rhannu i mewn i adrannau gwahanol i gyd-fynd a'i anghenion datblygu. Byddwch yn ymwybodol bod yr adrannau oed gwahanol yn ganllaw yn unig ac fe fyddwn yn hyblyg iawn wrth ystyried pryd dylai'r plant symud ymlaen i'r adran oed nesaf.

Ystafell 1	Ystafell babanod	3mis – 1 blwydd	3 o blant
Ystafell 2	Ystafell y darganfyddwyr	1 blwydd – 2 blwydd	12 o blant
Ystafell 3	Tumble tots	2 blwydd – 4 blwydd	15 o blant

Y Cyfnod Sylfaen

Trwy'r feithrinfa yr ydym yn dilyn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant rhwng tair blwydd oed a saith mlwydd oed.

Mae cael cwricwlwm i ddilyn yn creu strwythur a pharhad ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal plant, gyda'r arweiniad i ehangu ar ddysgu plant ym mhob maes dysgu a datblygu. Mae yna saith maes dysgu yn y cyfnod sylfaen…

- Datblygiad creadigol
- Datblygiad corfforol
- Datblygu'r iaith Gymraeg
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- Datrys problemau, ymresymu a rhifedd
- Cyfathrebu, iaith a llythrennedd
- Personol, cymdeithasol ac emosiynol

Nod y Cyfnod Sylfaen yw dysgu trwy chwarae. Ar gyfer ein plant ifanc iawn, rydym yn ffocysu ar ddarparu cyfleoedd iddynt ddarganfod ac arbrofi trwy ddefnyddio eu synhwyrau, hefyd rydym yn darparu cyfleoedd i'r plant cael chwarae hewristig ac efo basgedi trysor.

Basgedi trysor…

O enedigaeth mae plant yn dysgu trwy brofiadau yn yr amgylchedd yn ddyddiol. Mae'r cyfle i ddysgu trwy arbrofi ac archwilio yn bwysig ar gyfer paratoi plant ar gyfer dysgu ffurfiol. Mor gynted bo babi yn gallu eistedd yn gyfforddus a dal gwrthrych, gallant gael basged trysor i chwarae efo. Dylai basged cynnwys amrywiaeth o wrthrychau naturiol a gwrthrychau bywyd bob dydd. Pwrpas y fasged yw cynnig mwyafswm o ddiddordeb trwy ddefnyddio'r synhwyrau; teimlo, blasu, gweld, clywed ac arogli. Mae babanod yn elw profiadau da sensori trwy cega ac ymdrin â'r gwrthrychau meant yn ei dewis, meant hefyd yn dangos lefel uchel o ganolbwyntio a chwilfrydedd. Trwy gynnig basgedi trysor i blant yr ydym yn rhoi cyfle i'r plant archwilio a darganfod ar ben ei hun a dros ei hun.

Chwarae hewristig…

Mae chwarae hewristig yn wreiddiedig mewn chwilfrydedd plant ifanc. Fel bo babanod yn tyfu meant yn symud ymlaen o fod yn fodlon i ddechrau teimlo gwrthrychau gwahanol i ddarganfod beth allant wneud ganddynt. Mae gan blant bach cymhelliad i drafod pethau; I gasglu, i lanw, gwacau, gwneud pentwr, dethol a llawdrin mewn nifer o ffyrdd eraill hefyd. Pan bod plentyn ifanc yn darganfod rhywbeth diddorol, efallai bod un peth yn gallu ffitio i mewn i'r llall, yn aml iawn fe fydd y plentyn yn ailadrodd y prose ser meyn profi'r darganfyddiad, ac mae hyn yn datblygu datblygiad deallusol y plentyn, ei sgiliau motor cain a chydsymud llygaid a llaw.

Math o chwarae arall yr ydym yn annog

Chwarae rhyd… Chwarae dychmygus… chwarae sydd yn cael ei arwain gan oedolyn… chwarae rol… Chwarae mewn grwp… Chwarae creadigol… Chwarae cymdeithasol… Chwarae tawel.

Chwarae digymell

Gall y gweithgareddau sydd wedi cael ei paratoi ar gyfer y plant newid unrhyw adeg i gwrdd ag anghenion y plant. E.e. rydym yn deall efallai byddai'r plant yn mwynhau chwarae efo 'messy corn-flower' tro ar ôl tro yn lle cael amser wedi ei gosod i roi'r corn flower i ffwrdd. Mae plant yn ddigymell ac yr ydym yn credu'n gryf yn dilyn ei diddordebau nhw a'i annog i wneud dewisiadau dros ei hun.

Person allweddol eich plentyn

Fe fydd gan eich plentyn person allweddol pan fo'n dechrau yn y feithrinfa. Rôl y person allweddol yw setlo chi a'ch plentyn yn y feithrinfa ac i sicrhau bod y trawsnewidiad o'r cartref i'r feithrinfa yn un esmwyth. Mae'r person allweddol yn chwarae rôl bwysig o fewn y cyfnod sylfaen wrth baratoi gweithgareddau sydd yn cwrdd ag anghenion y plant; mae gan bob plentyn proffil datblygiad ac arsylwadau ac mae llwyddiannau hefyd yn cael ei gofnodi i ddangos datblygiad y plentyn cyfan. Mae gan bob rhiant hawl i weld proffil datblygiad ei plentyn ac yn cael ei annog i ychwanegu sylwadau yn ymwneud a llwyddianau. Mae'r person allweddol hefyd ar gael i roi cyngor a chefnogaeth i'r rhieni/gofalwyr ynglŷn â bob agwedd o les y plentyn ac i ddatblygu perthynas sicr a cadarnhaol gyda'r plant sydd yn ei gofal.

Mae'r feithrinfa yn dilyn y Cyfnod Sylfaen sydd yn gosod y safonau ar gyfer dysgu, datblygiad a gofal plant rhwng tair blwydd oed a saith mlwydd oed.

Mae bob un o'r saith maes dysgu yn gam ar y ffordd at gyrchnod dysgu cynnar, tra bod pob rheolwr o bob uned yn cyfesur gweithgareddau sydd wedi cael ei gynllunio i helpu cwrdd ag anghenion o bob plentyn, fel ei bod nhw'n barod ar gyfer ysgol gynradd. Mae dysgu yn cael ei annog trwy chwarae ac yn cynnwys gweithgareddau sydd yn cynnwys bob ardal o'r meysydd dysgu.

Ar ddiwedd bob tymor, byddwch yn derbyn adroddiad sydd yn datgelu'r cynnydd mae eich plentyn cyflawni, beth meant wedi dysgu ac unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Fe fydd person allweddol yn ymrwymedig i'ch plentyn er mwyn annog. Cefnogi a datblygu ei sgiliau ac i sicrhau bod cofnodion yn cael ei gadw ac anghenion unigol eich plentyn yn cael ei gyrraedd i chi ac eich plentyn!

Trefn yr adran babanod a darganfyddwyr

8.00/8.20am	Croeso a brecwast ar gyfer y plant
9.00am	Fe fydd y plant yn cael ei rhannu i mewn i grwpiau, grwpiau person allweddol a chynnig cyfleoedd i chwarae rhydd
9.30-11.45am	Dilyn y cynllun wythnosol er mwyn cyflawni cyfleoedd dysgu'r dydd. Newid cewynnau ac fe fydd rhai plant yn cael potel yn ystod y cyfnod yma. Annog plant yn hyn i helpu ei hun i'r bwrdd snac tua 10.00am. Fe fydd y cyfleoedd canlynol ar gael i'r plant yn ystod weddill y sesiwn: Dwr/ tywod/ amser stori/ peintio /chwarae tu allan/ basgedi trysor/ dawnsio/ canu/ teganau llawr/ teganau cerddorol/ chwarae hewristig/ amser i chwarae gyda phlant eraill a'r person allweddol.
11.45-12.30pm	Amser cinio - grwpiau bach yn eistedd efo staff i gael cinio wrth y bwrdd. Cadair uchel yn cael ei throi i mewn i grŵp bach. (1 aelod o staff i bob grŵp) glanhau ar ôl amser cinio.
12.30–2.30pm	Amser cysgu/gorffwys ac amser i weithgareddau tawel
2.30 – 3.30pm	Newid cewynnau, a chyfleoedd i ddysgu trwy ddilyn y cynllun wythnosol. Cynnig dŵr i'r plant trwy gydol y dydd. Fe fydd y cyfleoedd canlynol ar gael i'r plant i arbrofi yn y sesiwn yma: Dwr/ tywod/ amser stori/ peintio /chwarae tu allan/ basgedi trysor/ dawnsio/ canu/ teganau llawr/ teganau cerddorol/ chwarae hewristig/ amser i chwarae gyda phlant eraill a'r person allweddol.
3.30 – 4.30pm	Amser te – grwpiau bach yr un fath ag amser cinio
4.30-5.30pm 5.30-6.00pm	Amser chwarae rhydd yn y nos (amser glanhau a thacluso) Newid cewynnau Paratoi'r ystafelloedd ar gyfer yfory

Trefn ar gyfer yr adran tumble tots

8.00/8.30am	**Croeso brecwast a chwarae rhydd** Mae'r dydd yn cychwyn trwy groesawi'r plant i mewn i'r dosbarth top. Mae plant yn cofrestri eu henwai eu hun ac yn eistedd yn barod am frecwast. Yna mae cyfle ganddynt i chwarae rhydd
9.30am	**Tasg ffocws yn cychwyn** Mae'r plant yn casglu at ei gilydd ac yn trafod efo staff am y diwrnod. Mae'r plant yn cychwyn y gweithgaredd ac mae pawb yn cael ei annog i gymryd rhan. Fe fydd rhai plant yn gweithio mewn grŵp bychan tra bo'r gweddill yn chwarae rhydd. E.e. Chwarae rôl, adeiladu, gwneud marciau, peintio, mae ddigonedd o weithgareddau i ddewis. Yn ychwanegol mae'r plant yn cael cyfle i fwyta snac yn ystod y bore. Mae chwarae tu allan yn cael ei gynnwys yn y sesiwn yma ganddo fo oedolyn wedi paratoi tasg ffocws yn yr adran yma hefyd.
11.45am 11.55pm-	**Amser tŷ bach a golchi dwylo** **Cinio** Yn ystod amser cinio mae'r plant yn mwynhau gweddïo, ac mae ystod eang o fwydydd iachus ar gael lle bod y plant yn cael ei annog i helpu ei hun gyda chymorth oedolyn. Ar ôl cinio yn union fel bod mewn ysgol mae'r plant yn cael amser rhydd tu allan.
1.00pm	**Tasg ffocws yn cychwyn** Mae'r plant yn casglu at ei gilydd ac mae'r staff yn cael cyfle i drafod efo'r plant tra bod hunan cofrestri yn cael eu gwneud. Mae'r plant yn cychwyn y gweithgaredd ac mae pawb yn cael ei annog i gymryd rhan. Fe fydd rhai plant yn gweithio mewn grŵp bychan tra bo'r gweddill yn chwarae rhydd. E.e. Chwarae rôl, adeiladu, gwneud marciau, peintio, mae ddigonedd o weithgareddau i ddewis. Yn ychwanegol mae'r plant yn cael cyfle i fwyta snac yn ystod y bore. Mae chwarae tu allan yn cael ei gynnwys yn y sesiwn yma gan fod oedolyn wedi paratoi tasg ffocws yn yr adran yma hefyd.
3.30pm	**Amser cylch** Mae'r plant yn casglu mewn cylch ar y carpet ac yn mwynhau ystod eang o weithgareddau; canu, storiâu a thrafod mewn grŵp wrth adlewyrchu ar weithgareddau'r diwrnod.
4.00pm	**Amser te** Yn adeg yr amser yma mae'r plant yn cael dewis oddi ar y bwrdd snac ac yn cael ei annog i helpu ei hun gyda chymorth oedolyn. Mae gan y plant cynnig i chwarae rhydd a chwarae tu allan yn y sesiwn yma.

5.30/6.00pm	**Feithrinfa yn cau** Mae'r plant yn cael ei casglu ac yn dweud hwyl fawr am y dydd gan gofi i gasglu pob peth gwerthfawr iddynt!

Mae chwarae tu allan yn holl bwysig i ddatblygiad plant, yr ydym yn gwneud bob ymdrech i fynd allan hyd yn oed mewn glaw man, felly yr ydym yn gofyn i chi yn garedig i sicrhau bod cot glaw gan eich plentyn yn dod i'r feithrinfa.

ADRAN 2: GWYBODAETH I RIENI

2.1 Setlo I mewn

Mae'r trawsnewidiad rhwng y cartref a'r feithrinfa fel arfer ymofyn cyfnod o addasiadau i rieni a'r plant. Pan bod rhiant neu rieni yn ymweld â'r feithrinfa cyn bod ei plentyn yn dechrau, fe fydd person allweddol y plentyn yn trafod y ffordd orau i setlo'r plentyn i mewn. Mae'r broses o wahani'r rhiant/rhieni ar blentyn angen bod yn broses o strwythur, hyblygrwydd a chadw mewn meddwl anghenion unigol bob plentyn. Ar ôl i blentyn derbyn lle yn y feithrinfa, yr ydym yn disgwyl bod y rhieni yn aros am gyfnod gyda'r plentyn cyn y diwrnod dechrau. Yr ydym fel arfer yn gosod pythefnos ar gyfer y broses yma.

Yn ystod wythnos gyntaf y plentyn yn y feithrinfa yr ydym yn awgrymu bod rhieni yn gadael ei plentyn am lai na hanner diwrnod nes bod y trawsnewidiad yn llwyddiannus.

2.2 Diwrnod cyntaf plentyn

Mae bob rhiant yn cael ei gofyn i adael un set o ddillad sbâr ar gyfer ei plentyn, gall y dillad yma cael ei gadael ym mocs personol y plentyn wrth ymyl ei bachyn cot.

Fe fydd angen cewynnau tafladwy ar gyfer y babanod, a dillad isaf ar gyfer y plant bach. Gan fod staff dim ond yn defnyddio wipes tafladwy a dŵr (am resymau hylendid, nid ydynt yn defnyddio wipes tafladwy comunol) gofynnir i rieni dod a wipes tafladwy os ydynt yn dymuno.

Ar gyfer babanod sydd yn bwydo o'r botel, gofynnir i rieni dod a'r fformiwla i mewn ac fe fydd y staff yn paratoi'r botel. Mae croeso i famau sydd yn rhoi llaeth o'r fron dod i mewn i'r feithrinfa i roi bwyd i'w babi pan fo angen.

Os oes gan blentyn hoff dedi, blanced neu unrhyw degan cysur, efallai byddai rhieni yn hoff o ddod ar degan gan y plentyn i'r feithrinfa.

Mae rhieni sydd gan babi yn dechrau yn y feithrinfa yn cael ei gofyn i roi syniad cyffredinol o drefn ddyddiol y babi i'r person allweddol, e.e. amser bwydo, amser cysgu, ac unrhyw wybodaeth ychwanegol y meant yn credu bydd o fudd i'r staff.

2.3 Dosbarthiad y plant a pherson allweddol

Mae pob plentyn sydd yn mynychu'r feithrinfa o dan ofal person allweddol. Mae'r aelod o staff yma yn gyfrifol am drafod gweithgareddau dyddiol y plentyn gyda'r rhieni, cynnal portffolio'r plentyn a hefyd meant yn gyfrifol am gynllunio ar gyfer y plentyn. Pwrpas cael person allweddol yn y feithrinfa yw hyrwyddo perthynas lle bod ymddiried llwyr rhwng y person allweddol a'r plentyn, a hefyd i sicrhau bod prif dasgau pob plentyn yn gyfrifoldeb un aelod o staff yn unig. Pwrpas pwysig arall o'r system yw gwella cadw cofnodion y feithrinfa ar bob plentyn unigol ac i ganiatáu'r rhannu o wybodaeth yn ol trefn gyson.

Pan bod y plentyn yn symud o'r uned babanod i'r prif le chwarae fe fydd person allweddol y plentyn yn newid. Fe fydd cyfle i riant/rhieni'r plentyn cwrdd â'r person allweddol newydd cyn bod y trefniad yn cael ei gadarnhau.

Visit us at: www.camautirion.co.uk

2.4 Y cwricwlwm a'r gweithgareddau y ydym ynn darparu

Mae'r feithrinfa yn gweithredu o fewn y fframwaith 'Birth to three matters' yn ogystal a'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant rhwng tair a saith.

Yr ydym ni'n credo bod plant yn dysgu trwy profiadau llaw cyntaf, trwy defnyddo'I pump synhwyr er mwyn datblygu deallusrwydd o'r byd. Mae'r awydd I ddusgu yn naturiol a meant yn gwneud hyn trwy chwrae efo gwrthrychau go iawn er mwyn gwneud snnwyr o'i byd. Mae'r awyrgylch yn hwyl, happus ac yn llac. Yr ydym yn darparu ystod eang o cyfleuoedd dysgu a darganfod er mwyn helpu'r plant yn eun gofal I gyrraedd ei potential llawn beth bynnag ei oed.

2.4.1 Babanod o dair mis oed hyd at ddwy flwydd oed

Nod yr adran babanod yw i ddarparu cyfleoedd i'r plant dysgu am ei hun a hefyd am bobl eraill, rydym hefyd yn annog y plant i ddysgu am y byd meant yn byw ynddo. Mae'r gyfundrefn yn y brif adran chwarae yn parhau i adeiladu ar y gwerthoedd a'r cyfleuoedd yn yr adran babanod. Fodd bynnag mae'r plant yn cael ei rhannu i mewn i grwpiau bach teuluol gyda'i gweithwyr allweddol.

2.4.2 Dosbarth plant cyn ysgol (2-4)

Yn yr adran yma o'r feithrinfa mae'r plant yn cael ei rhannu i mewn i grwpiau. Mae bob adran o'r feithrinfa yn darparu ystod eang o offer sydd wedi cael ei dewis yn garcus iawn. Mae gan y plant y cyfle i ddewis pa wrthrychau meant eisiau chwarae efo. Trwy gydol y dydd mae gan y plant y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau efo aelodau o staff er enghraifft coginio neu dasgau sydd yn berthnasol i'r testun ar y pryd. Ar yr adeg yma mae gan y plant cyfle i weithio mewn grŵp, mewn par, ar ben ei hun neu peidio cymryd rhan o gwbl a dewis gweithgaredd ar ben ei hun. Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn yn cael sylw unigol yn ystod y dydd.

Mae cynnydd pob plentyn yn cael ei fonitro ac mae llwyddiannau'r plant yn cael ei gofnodi wrth iddynt symud ymlaen trwy'r feithrinfa. Gall cofnodion cynnwys enghreifftiau o'i gwaith, lluniau neu arsylwadau ysgrifenedig. Mae'r cofnodion yma ar gael i bob rhiant cael gweld ac fe fydd pob plentyn yn derbyn y cofnodion yma wrth adael y feithrinfa.

2.5 System cofrestru a chadw cofnodion

Mae rheoliadau AGGCC yn gofyn i bob rhiant rhoi'r wybodaeth ganlynol i reolwr y feithrinfa ac fe fydd gofyn i'r rhieni llanw ffurflenni ychwanegol, yn cynnwys:

- Enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhyw, ethnig, a chrefydd y plentyn
- Unrhyw ofynion dietegol
- Enw, cyfeiriad cartref, lle gwaith (yn cynnwys rhifau ffôn) rhiant/rhieni, gwarcheidwad y plentyn.
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn meddyg ac ymwelydd iechyd y plentyn
- Unrhyw glefyd heintus mae'r plentyn wedi dioddef o yn y gorffennol neu unrhyw wybodaeth am iechyd y plentyn; er enghraifft alergedd.
- Caniatâd i roi meddyginiaeth i'r plentyn gan aelod o staff;
- Caniatâd i'r plentyn derbyn triniaeth feddygol brys
- Caniatâd i'r plentyn cael ei cymryd allan o dir y feithrinfa (ymarfer corf achlysurol, gwibdaith ect) gan aelod/au o staff.
- Enwau'r bobl sydd â hawl i gasglu'r plentyn o'r feithrinfa

Fe fydd y ffurflenni yma yn cael ei gadw yn ffeil personol eich plentyn yn ogystal â manylion y person i gysylltu mewn argyfwng. Cofiwch fod cyfrifoldeb arnoch chi i wneud yn siŵr bod cofnodion eich plentyn yn gyfoes.

2.6 Salwch a damweiniau

2.6.1 Damweiniau

Tra bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod y feithrinfa yn ddiogel, mae damweiniau wrth gwrs yn digwydd yn achlysurol. Yn ffodus mae y rhain fel arfer yn doriad i'r croen sydd fel arfer yn gallu cael ei ddelio gan y staff. Fe fydd y staff yn cofnodi bob damwain ac yn trafod y ddamwain gennych pan fyddwch yn casglu eich plentyn.

Mew nachos damwain yn fwy difrifol fe fyddwn yn cysylltu rhiant y plentyn yn syth. Os am unrhyw reswm and ydynt yn gallu cysylltu efo'r rhiant na'r person i gysylltu â mewn argyfwng, efallai fyddwn yn cysylltu am gymorth meddygol. Os yw'n briodol fe fydd reolwr y feithrinfa yn gofyn i'r plentyn cael ei gymryd adref ar ôl y ddamwain neu anaf.

2.6.2 Salwch

Rydym yn gofyn i rieni peidio dod a phlentyn sydd yn sâl i'r feithrinfa:

- Os yw'r plentyn yn ymddangos yn sâl yn ystod y dydd, fe fydd y rhieni yn cael ei gysylltu â, ac efallai yn cael ei ofyn i fynd a'r plentyn adref.
- Mae rhai i smotiau a rash cael ei weld gan ddoctor er mwyn cadarnhau unrhyw glefyd heintus.
- Mae plant sydd yn dod mewn cysylltiad gan unrhyw glefyd heintus yn cael ei gorfodi i aros adref am gyfnod lleiafswm y feithrinfa.(gwelwch y polisi a'r iechyd)

2.6.3 Meddyginiaeth

Fe fydd meddyginiaeth dim ond yn cael ei gweinyddu os oes taflen caniatâd ysgrifenedig o'r rhieni wedi cael ei gwblhau, 'Parent's authorisation to Day Nursery staff to administer prescribed medication to child.' Mae unrhyw blentyn sydd ar feddyginiaeth benodedig gan y doctor yn gorfod aros adref am y 24 awr gyntaf o driniaeth.

Mae cist cymorth cyntaf ar gae yn y gegin ac yn swyddfa'r rheolwr, maent ar glo ac allan o afael y plant.

2.7 Prydau bwyd

Mae'r feithrinfa yn darparu bwyd maethol ar gyfer diet cytbwys ac mae yna o hyd opsiwn llysieuwr ac unrhyw angen am ddiet arbennig. Mae'r fwydlen yn cael ei arddangos ar hysbysfwrdd y rhieni yn y cyntedd. Mae'r hol bwyd yn cael ei brynu'n lleol.

- Mae pob plentyn yn cael cynnig o dwr neu laeth canol y bore a chanol y prynhawn, fodd bynnag mae dŵr ar gael i'r plant trwy gydol y dydd ac yr ydym yn annog y plant i helpu ei hun
- Mae bwyd twym ar gael i'r plant am 11.55am, ac mae te ysgafn am 3.45pm
- Mae pris y bwyd yn gynwysedig yn y ffioedd misol
- Mae pris y bwyd yn cael ei wneud am y mis cyfan felly nid yw'r pris yn gallu cael ei newid i adlewyrchu presenoldeb eich plentyn yn ystod y mis

- Mae amser cinio yn amser i gymdeithasu, mae'n amser llac ac nid ydynt yn hastu'r plant. Mae'r plant yn helpu gosod y byrddau ar gyfer ei phryd ac yn helpu i rannu allan y snac prynhawn. Yr ydym yn anelu at gael y plant i feithrin sgiliau bwyta da a moesau da wrth y bwrdd.
- Mae maint y pryd wedi cael ei gynllunio i fod yn ddigonol ond nid yn rhy gormod.
- Dylai llaeth fformiwla neu fwyd ar gyfer babanod cael ei darparu gan y rhieni.

2.7.1 Rhoi'r fron

Mae unrhyw fam sydd yn rhoi'r fron ar hyn o bryd ac sydd yn golygu parhau gyda chroeso i wneud hyn yn y feithrinfa. Dylai mamau trafod hyn gyda'r person allweddol er mwyn trefni amseroedd sydd yn gyfleus i'r fam ac i'r feithrinfa.

2.8 Amser gorffwys

Mae plant sydd angen cysgu yn cael cyfle i gysgu yn ystod y dydd, fel arfer ar ôl cinio. Mae gan y babanod lle cysgu ar wahân ac meant yn gallu cysgu pan bod angen. Mae gan y plant sydd yn hyn matiau gorffwys ac mae hefyd croeso iddynt hwy gysgu os ydynt yn dymuno.

2.9 Lle

Mae bob adran o'r feithrinfa yn gwneud y defnydd gorau o'r lle. Yn ogystal â lle tu allan a thu fewn, mae gan bob ardal defnydd; cornel darllen, cornel chwarae rôl.

2.10 Ein partneriaeth gyda rhieni

Mae'r feithrinfa yn croesawi ymhlygiad rhieni ac yn anelu i weithio mewn partneriaeth gyda rhieni mewn gofal ac addysg y plant. Mae'r rheolwr yn rhannu gwybodaeth efo'r rhieni trwy e-bost yn gyson, er enghraifft bwydlenni, digwyddiadau a gwyliau.

Fe fydd gwybodaeth am y cwricwlwm a'r person allweddol ym mhob ardal o'r feithrinfa.

2.12 Codi arian

Mae yn a llawer o ddigwyddiadau codi arian trwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys gwerthu cacennau, raffl, a digwyddiadau noddedig. Yr ydym yn gofyn am eich cefnogaeth chi ar yr adegau yma ac yn yr ydym yn croesawi syniadau ac awgrymiadau newydd.

ADRAN 3: TELERAU AC AMODAU AR YFER DEFNYDD Y FEITHRINFA

Darllenwch y canlynol gyda gofal

3.1 Defnydd y feithrinfa dydd - cytuned i dderbyn lle

Mae'r lleoedd yn y feithrinfa yn brin; **mae blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sydd yn aros am le lawn amser.** Mae gofyn i rieni llanw ffurflen gais gyda'i manylion nhw a manylion am y plentyn. Unwaith bod le ar gael i'r plentyn mae rhai i rieni arwyddo contract sydd yn gwneud y trefniadau yn orfodol. Fe fydd dyraniad lle yn parhau trwy'r gwyliau'r un fath ac yn ystod amser ysgol.

Wrth dderbyn lle yn y feithrinfa mae gofyn i'r rhieni talu deposit cofrestri sydd yn gyfartal i un mis o ddefnydd y feithrinfa o fewn pum diwrnod gwaith o'r amser wnaeth y llythyr allan i gynnig lle. Fe fydd methiant i dalu'r deposit yn golygu lle'r plentyn yn cael ei chilio. **Ni fydd y deposit yn cael ei ad-dalu os yw'r rhieni yn dewis peidio cymryd y lle yn y feithrinfa.**

Os oes rhaid tynnu'r plentyn allan o'r feithrinfa fe fydd gofyn i'r rhieni rhoi hysbyseb ysgrifenedig i reolwr y feithrinfa dau fis o flaen llaw. Fe fydd hefyd rhaid i'r rhieni talu ffioedd y plentyn am gyfnod o ddau fis ar ôl i'r hysbyseb ysgrifenedig gael ei derbyn gan y rheolwr.

Nid oes gan y rheolwr yr allu i newid diwrnodau'r plentyn unwaith bod y diwrnodau a'r amseroedd wedi cael ei dewis gan y rhieni ac wedi cael ei arwyddo yn y contract. Fodd bynnag gall diwrnodau ychwanegol cael ei bwcio o flaen llaw os oes lle.

3.2 Ffi a chymorth ariannol

Mae'r feithrinfa yn gweithredu gweithred hunan ariannol, mae'r feithrinfa yn dibynnu ar ffi incwm er mwyn talu cyflogau'r staff a chwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol.

Heb law am y deposit cofrestri(gwelch uchod) mae rhieni yn talu ffi fisol ymlaen llaw. Mae'r ffi yma yn cael ei gyfri ar 1/12 o'r defnydd y byddai rhiant yn defnyddio'r feithrinfa dros y flwyddyn, yn ôl y patrwm mae'r rhiant wedi arwyddo yn y cytundeb i ddefnyddio'r feithrinfa yn ystod y flwyddyn. Os ydy rhiant yn newid i wneud llai/mwy o ddefnydd o'r feithrinfa, fe fydd hi/fe n atebol i dalu'r tal safonol sydd yn gyfatebol i'r defnydd diwygiadol o'r feithrinfa ar unwaith. Gwelwch fanylion o'r ffi fisol am y flwyddyn.

3.2.1 Taliad o ffioedd y feithrinfa

Fe fydd ffioedd yn cael ei anfonebu yn fisol.

Os am unrhyw reswm (yn cynnwys salwch neu wyliau) nid yw plentyn yn dod i'r feithrinfa pan bod hi/fe fod yn bresennol yn ôl y telerau a gytunwyd yn y cytundeb, mae gofynnol i rieni talu'r ffi am y diwrnodau nad yw'r plentyn yn y feithrinfa.

3.2.2 Cronfa ar gyfer addysg feithrinfa

Mae darparwyr addysg feithrin yn derbyn cronfa ar gyfer plant rhwng 3-4 (o'r tymor ar o lei trydydd pen blwydd hyd at y tymor cyn ei pumed pen blwydd). Mae'r gronfa yn fenter sydd yn cael ei darparu gan y llywodraeth sydd wedi cael ei gosod er mwyn cynnig addysg rad ac am ddim ar gyfer plant dros 3, mae'n cael ei gweinyddu i'r feithrinfa trwy wasanaethau'r blynyddoedd cynnar a dechrau da yr awdurdod lleol.

Mae pob plentyn 3 a 4 blwydd oed a hawl I 12.5 awr yr wythnos o ofal rhad ac am ddim mewn meithrinfa am 38 wythnos y flwyddyn. Os yw eich plentyn rhagori'i oriau yma fydyn yn didynnu'r 12.5 awr allan o'r ffi fisol.

RYDYM YN CYNNIG GOFAL PLANT RHAD AC AM DDIM. Os ydych yn dymuno bwcio eich plentyn yn y feithrinfa i gymryd mantais o'r fenter hon, gallwch drafod efo reolwr y feithrin. Rydym yn cynnal sesiynau o 9.15am - 12.00pm a 1.00pm - 3.30pm. Mae'r sesiynau ychydig yn hirach na 2.5 awr ond wnaethom weld bod yr oriau yma yn fwy addas i gyd-fynd ag oriau ysgol. Rydym yn codi tal o £2.20 yn y sesiynau yma ar gyfer llaeth eich plentyn a chinio neu de.

Mae'n mynegi bod hawl I 5x2.5awr yr wythnos, gallwch fwcio dau sesiwn mewn un dydd ond mae rhaid talu'r gost o £4.00 er mwyn i'ch plentyn aros cyn dechrau'r sesiynau ac ar ôl y sesiynau.

Bob tymor mae yna gyfrif pen yn cael ei darparu i'r CCC o'r feithrinfa, mae hyn yn cynnwys presenoldeb plant o dan dair blwydd oed; o'r wybodaeth yma mae'r CCC yn talu First Foundations Nursery Ltd, ac yna mae'r rhieni yn cael ei ad-dalu.

Pryd mae eich plentyn cymhwyso ar gyfer cronfa addysg feithrinfa

Pan bod dyddiad geni eich plentyn rhwng:	Maent yn cymhwyso am le rhad ac am ddim o:
1af o Ebrill a 31 o Awst	**1af o Fedi yn dilyn ei trydydd pen blwydd hyd at amser ysgol**
1af o Fedi a 31 o Ragfyr	**1af o Ionawr yn dilyn ei trydydd pen blwydd hyd at amser ysgol**
1af o Ionawr a 31 o Fawrth	**1af o Ebrill yn dilyn ei trydydd pen blwydd hyd at amser ysgol**

3.3 Cymorth myfyrwyr

Rhieni a allay fod yn cymwys am grant y llywodraeth ar gyfer gofal plant (ar gael i fyfyrwyr llawn amser israddedig cartref/Undeb Ewropeaidd)

Mae grant gofal plant ar gael i fyfyrwyr rhan amser israddedig o gefndir incwm isel sydd ddim yn derbyn (nac yw'r rhieni yn derbyn) credit dreth ar gyfer plant na grant y GIG ar gyfer gofal plant. Rhaid taw'r myfyriwr yw prif ofalwr y plentyn er mwyn derbyn y lleiafswm o £785 ffi cymorth a £255 grant ar gyfer y cwrs trwy'r awdurdodau lleol. Mae'r grand hefyd yn cyfrannu tuag at gost gofal plant myfyrwyr sydd yn defnyddio meithrinfeydd cofrestredig, ac mae'n cael ei dalu ar gyfer plant hyd at 15 mlwydd oed cyn dechrau flwyddyn academaidd yn syth.

3.4 Rhybudd absenoldeb

Os nad yw plentyn yn cyrraedd y feithrinfa ar y diwrnodau dylai hi/fe fod yn bresennol yn ôl y cytundeb a chafwyd ei arwyddo, dylai'r rhieni rhoi gwybod i reolwr y feithrinfa'r rheswm dros yr absenoldeb a dyddiad meant yn disgwyl bydd y plentyn yn ôl erbyn 9.30am. Mae\ gan y feithrinfa system voicemail ac yr ydym yn annog rhieni i adael neges os nad ydynt yn gallu cysylltu efo aelod o staff.

3.5 Terfyniad o gofrestriad plentyn

Mae'n ofynnol i rieni rhoi dau fis o rybudd ysgrifenedig os ydynt yn dymuno cymryd ei plentyn allan o'r feithrinfa. Fe fydd rhaid i'r rhieni talu ffi lawn yn ystod y cyfnod o rybudd.

Gallai reolwr y feithrinfa terfynu cofrestriad plentyn yn y feithrinfa ar unrhyw adeg drwy roi pedair wythnos o rybudd i'r rhieni.

3.5 Dull gweithredu cwynion

Mae unrhyw un sydd yn dymuno gwneud cwyn am ei profiad hi/fe o'r feithrinfa yn gorfod trio datrys y broblem yn anffurfiol i ddechrau mewn trafodaeth gydag aelod o staff neu berson allweddol. Os nad yw'r broblem yn cael ei datrys dylai'r cwyn fynd at reolwr y feithrinfa.

Mae'r rheolwr yn cymryd bob cwyn yn ddifrifol iawn ac fe fydd ymchwiliad trylwyr iawn yn cael ei wneud i'ch gofidion. Yr ydym yn gofyn i chi wneud cwynion yn ysgrifennedig at Miranda Williams, y rheolwr. Fe fydd cydnabyddiaeth o'r cwyn yn cael ei rhoi mewn pum diwrnod gwaith ac fe fydd ymateb llawn yn cael ei rhoi o fewn 28 diwrnod.

Os oes gennych gŵyn yn ymwneud ag aelod o staff, a wnewch chi roi gwybod i'r rheolwr neu'r is-reolwr ar unwaith. Fe fydd pob cwyn yn cael ei delio yn fuan ac yn gyfrinachol.

Cwynion yn erbyn sefydliadau unigol

Mae trefn wahanol ar gael er mwyn gwneud cwyn am y safon o'r gwasanaeth, y gweithrediad, neu ddiffyg gweithrediad gyda chyfleuster cofrestredig mewn cysylltiad ag unigolyn neu grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y drefn yma ar wefan yr AGGCC

(www.cssiw.wales.gov.uk)

Ffioedd Meithrinfa Dydd Camau Tirion 2010-2011

Fydd ffioedd y feithrinfa yn seiliedig ar 51 wythnos y flwyddyn, wedi cael ei gyfri i mewn i fis calendar. Ni fyddwn yn codi tal am wythnos Nadolig nac am bum gŵyl banc y flwyddyn gan fod y feithrinfa ar gau. Fydd anfoneb yn cael ei godi ar y 28ain o bob mis ac yn cael ei dalu mis ymlaen llaw trwy siec neu debyd uniongyrchol. Fe fydd posibilrwydd o godiad mewn tal ar y 1af o Awst bob blwyddyn. Mae'r ffioedd yn cynnwys bwydydd iachus a maethol a fydd yn cael ei goginio yn y feithrinfa, a byrbrydau ar gyfer plant sydd yn bwyta solids. Os yw eich plentyn ar fformiwla neu laeth y fron, fe fydd angen i'r rhiant darparu hyn.

Sesiynau	**Plant rhwng tair mis a dwy flwydd oed**
Wythnos llawn	£160 yn cynnwys brecwast, cinio, te a byrbrydau
Diwrnod llawn	£36 yn cynnwys brecwast, cinio, te a byrbrydau
5 bore	£97.50 yn cynnwys brecwast, cinio, a byrbrydau
5 prynhawn	£97.50 yn cynnwys brecwast, cinio, a byrbrydau
bore	£21.50 yn cynnwys brecwast, cinio a byrbrydau
prynhawn	£19.95 yn cynnwys te a byrbrydau
Diwrnod ysgol	£27 yn cynnwys brecwast a chinio
Wythnos ysgol	£125 term time only option available
Sesiynau	**Plant dros ddwy flwydd oed**
Wythnos llawn	£157 yn cynnwys brecwast, cinio, te a byrbrydau
Diwrnod llawn	£34 yn cynnwys brecwast, cinio, te a byrbrydau
5 bore	£95 yn cynnwys brecwast, cinio a byrbrydau
5 prynhawn	£95 yn cynnwys brecwast, cinio a byrbrydau
Bore	£19.95 yn cynnwys brecwast, cinio a byrbrydau
Prynhawn	£18.95 yn cynnwys te a byrbrydau
Diwrnod ysgol	£25 yn cynnwys brecwast a chinio
Wythnos ysgol	£115 term time only option available
Oriau ychwanegol	£4.00y/awr rhaid cytuno o flaen llaw am oriau ychwanegol
Grant feithrinfa	12.5 awr yr wythnos i blant dros 3 - dim ond £3 y sesiwn yn ychwanegol

Isafswm oriau'r feithrinfa yw dau sesiwn yr wythnos. Os oes mwy nag un plentyn gennych yn y feithrinfa fe fydd disgownt o 10% yn cael ei rhoi i'r plentyn hynaf.

Visit us at: www.camautirion.co.uk